Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

# Adolygiad Buddsoddi 2023

## Ymateb i'r Ymgynghoriad

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®

# Rhagair

Croeso i'n hadborth am yr ymarfer ymgynghori a gynhaliwyd fel rhan o'n proses Adolygiad Buddsoddi 2023.

Gofynnodd yr ymgynghoriad am ymatebion i gyfres o gwestiynau. Agorodd yr ymgynghoriad am 12 wythnos ar 18 Gorffennaf 2022 a daeth i ben ar 1 Hydref 2022. Buom yn ymgynghori am:

- Ein dull newydd arfaethedig am yr Adolygiad Buddsoddi a'r broses ymgeisio
- Y broses apelio
- Asesiad drafft o'r Effaith Gyfun o'r uchod (gallwch ddarllen mwy am yr Asesiad o'r Effaith Gyfun a pham ein bod yn paratoi un yn y ddogfen ei hun)

Roedd yr ymgynghoriad ar agor i bawb. Fodd bynnag, roeddem yn awyddus iawn i glywed gan sefydliadau celfyddydol a gweithwyr creadigol gan y byddai'r cynigion hyn yn effeithio arnynt yn uniongyrchol. Ceisiwyd cael ystod mor eang â phosibl o sylwadau oddi wrth y grwpiau hyn. Drwy gydol y cyfnod hwn, buom yn mynd ati i hyrwyddo'r ymgynghoriad, drwy wahanol rwydweithiau, y cyfryngau cymdeithasol, cylchlythyrau a negeseuon e-bost uniongyrchol.

Derbyniodd cyfanswm o 77 ymateb i'r arolwg ysgrifenedig ar-lein a phedwar cyflwyniad e-bost.

Yn ogystal ag arolwg ar-lein, comisiynwyd Dr Glenda Jones i hwyluso cyfres o wyth cyfarfod agored ar-lein a oedd yn hygyrch ac amlieithog (Cymraeg, Saesneg ac Arwyddeg) yn ystod mis Awst 2022 a mis Medi 2022. Rhwng popeth, roedd 189 o bobl sy'n cynnwys unigolion a gyflogir o fewn a thu allan i'r sector, artistiaid a sefydliadau (yn aelodau o'r Portffolio presennol a rhai nad ydynt yn aelodau ohono) ar draws y sector yn bresennol yn y cyfarfodydd hyn. Cynhaliwyd sesiwn ar wahân hefyd i Gydweithwyr sy'n gweithio ar ein rhaglenni Camau Creadigol ac mae ganddynt wybodaeth benodol am rwystrau i gael gafael ar arian.

Lle bo'n berthnasol rydym wedi gwahanu'r ymatebion i nodi a oeddent yn dod drwy'r sesiynau wedi'u hwyluso (sy'n cyfrif am nifer mawr o ymatebion), yr arolwg ar-lein, neu e-bost. Fodd bynnag, nid yw adborth yn priodoli sylwadau i'r unigolion a'u gwnaeth.

Yn ogystal, rydym wedi gofyn am farn ein harianwyr, Llywodraeth Cymru, ein staff ac aelodau o'n Cyngor.

Fel y nodwyd uchod, roedd yr ymatebwyr yn gallu cymryd rhan yn yr ymgynghoriad drwy lenwi arolwg, cyflwyno e-bost a thrwy fynychu'r trafodaethau ar-lein a hwyluswyd. Felly, gallai unigolyn fod wedi porthi ei sylwadau i'r ymgynghoriad ar fwy nag un achlysur. Yn yr un modd, gall ymatebion unigol hefyd adlewyrchu barn mwy nag un unigolyn, er enghraifft wrth gynrychioli barn sefydliad. Am y rhesymau hyn, rydym yn cyfeirio at 'ymatebion' yn hytrach nag 'ymatebwyr' drwy gydol y ddogfen hon ac nid ydym wedi pwysoli'r sylwadau yn ôl nifer y gweithiau y lleisiwyd y farn.

Mynegodd cyfranogwyr o'r ymgynghoriad cyhoeddus hwn eu gwerthfawrogiad o'r cyfle i gymryd rhan mewn trafodaethau mewn modd agored a chydweithiol a chodwyd sawl cwestiwn hefyd a oedd yn gofyn am eglurhad pellach o rai o agweddau ar y cynigion. Lle'r oeddem yn gallu ymateb yn syth i'r rhain i gynnig eglurhad, gwnaethom hynny drwy gyhoeddi cyfres o Gwestiynau Cyffredin. Cafodd y rhain eu diweddaru ar ôl pob trafodaeth ar-lein er mwyn sicrhau y byddai pawb yn cael mynediad i'r sylwadau diweddaraf, yn hytrach na dim ond y rhai a fynychodd y sesiwn benodol honno. Bu'r trefniant hwn yn helpu i roi gwybod yn well i gyfranogwyr yn y sesiynau diweddarach, lleihau dyblygu cwestiynau ar draws sesiynau a rhoi gwybodaeth ychwanegol i unrhyw un a oedd am lenwi'r arolwg ar-lein. Fe wnaethom hefyd nodi cwestiynau'r rhai a fyddai angen ystyriaeth bellach gan ein Cyngor.

Mae pob adborth yn y sylwadau sy'n dilyn. Mae'r Cyngor wedi ystyried, yn fanwl, yr holl bwyntiau a godwyd, ac rydym wedi cynnwys ei ymatebion isod.

Rydym yn ddiolchgar iawn am yr amser a'r ymdrech a gymerodd pawb er mwyn lleisio barn. Gwerthfawrogwn hyn yn fawr.

Cyngor Celfyddydau Cymru

Tachwedd 2022

Yr Ymatebion

# Rhan Un: Esbonio ein model a'n gweledigaeth newydd

Cwestiwn: Yn yr adrannau 'Mae'n fyd sydd wedi newid am byth, ac mae'r newid yma i aros' a 'Nodyn Atgoffa am sut rydym ni'n ariannu sefydliadau celfyddydol' rydym yn cyflwyno'r cysyniad bod angen i ni newid pwy rydym ni'n ariannu a sut rydym yn ei wneud o ran ariannu'r celfyddydau yng Nghymru. Ydych chi'n cytuno mai dyma'r amser i wneud pethau'n wahanol?

## Crynodeb o'r ymatebion

Roedd consenswS cryf bod angen newid ar frys a oedd yn deillio o'r cyfnod cyn y pandemig am fod y trefniant presennol ar gyfer arian refeniw i'w weld o fudd i'r ychydig ond yn eithrio llawer. Erbyn hyn roedd angen modelau a strwythurau ariannu gwahanol, yn ôl yr ymatebion. Mae'r dull arfaethedig hwn yn gyfle i edrych ar sut mae'r celfyddydau'n cael eu hariannu ac yn pwysleisio pwysigrwydd ac effaith gadarnhaol y celfyddydau ar iechyd, cymunedau ac unigolion. Er y cydnabuwyd bod gan leiafrif bryderon a oedd y sefyllfa economaidd bresennol yn gwneud hyn yn gyfnod rhy heriol ar gyfer newid, roedd y mwyafrif o'r cyfranogwyr ar draws y trafodaethau'n cytuno bod newid yn angenrheidiol ac yn anochel. Yr ochr gadarnhaol o newid yw y gallai helpu i ddatblygu cydweithio, hyblygrwydd, ystwythder ac amrywiaeth i hyrwyddo'r gwaith sydd ar hyn o bryd ar yr ymylon. Ar y cyfan, felly, croesawyd newid gan hyd yn oed ei ystyried yn hanfodol ar yr adeg dyngedfennol hon.

Roedd llawer yn cydnabod bod rhan o'r sector yn perfformio'n dda yn barod yn y meysydd a amlygwyd drwy gydol y ddogfen. Ond byddai dod â'r rhain ynghyd o fewn proses Adolygiad Buddsoddi ffurfiol yn caniatáu i eraill yn y sector rannu a chael profiad ac i wneud newid cadarnhaol.

Er gwaethaf nodyn o rybudd a godwyd gan rai am faint yn fwy y byddai'n bosibl i'r sector ei wneud i newid ac ymaddasu ymhellach, yn gyffredinol, roedd cefnogaeth gadarnhaol dros newid.

## Ein hymateb

Cytunodd mwyafrif yr ymatebion i'r arolwg mai dyma oedd yr amser i newid. Adlewyrchwyd yr ymateb cadarnhaol hwn hefyd yn y sesiynau ar-lein ac ymatebion e-bost.

Ar draws yr ystod o atebion, gan gynnwys llawer a atebodd eu bod yn 'ansicr', roedd gwir gydnabyddiaeth o fyw mewn cyfnod heriol a sicrhau bod y sefydliadau cywir yn cael eu hariannu o ganlyniad i'r broses hon. Roedd bron i hanner yr ymatebion oedd yn dweud eu bod yn ansicr ynglŷn â newid a phob un o'r tri a oedd yn dweud nad nawr oedd yr amser i newid (yn yr ymatebion ysgrifenedig),

yn dod oddi wrth aelodau presennol o Bortffolio Celfyddydol Cymru. Mae hyn yn ddealladwy, gan y gall newid darfu ar bobl, ac mae'n bosibl y bydd rhai aelodau presennol o'r Portffolio yn colli eu harian rheolaidd; fodd bynnag, nid yw'n ymddangos bod hwn yn rheswm da dros beidio â symud ymlaen a sicrhau bod y cydbwysedd o sefydliadau sy'n cael eu hariannu yn adlewyrchiad gwell o Gymru a'i phobl. Heb newid, y consensws oedd na fyddwn ni'n symud ymlaen gyda newidiadau pwysig yn y ffordd rydym ni'n ariannu'r sector.

Ar y cyfan, rydym yn falch bod y gwahanol sianeli a ddefnyddiwyd gennym yn gytûn i raddau helaeth iawn mai dyma'r amser i newid, ac mae ein dogfennaeth a'n prosesau terfynol yn adlewyrchu'r brwdfrydedd hwnnw.

Cwestiwn: Yn yr adran 'Golwg newydd ar ein harian – y cyd-destun ar gyfer newid' rydym yn gosod y cyd-destun am yr angen i fynd i'r afael â materion fel annhegwch (mewn sawl maes allweddol), yr argyfwng costau byw a'r argyfwng hinsawdd. Caiff y rhain eu gosod ochr yn ochr â fframwaith cyfreithiol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Pa heriau eraill mae'r sector celfyddydau'n eu hwynebu?

## Crynodeb o'r ymatebion

Barn rhai oedd nad yw'r Ddogfen Ymgynghori, fel y'i cyflwynwyd ar hyn o bryd, yn awgrymu ein bod wedi dod dros y gwaethaf a barn y rhai yma oedd bod y gwaethaf o'n blaenau o hyd. Roedd y canlynol yn enghreifftiau o'r heriau ychwanegol a amlygwyd drwy'r ymatebion:

- Goblygiadau Brexit, gan gynnwys colli Arian Ewropeaidd ac effaith teithio rhwng y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd.
- Adferiad ôl-bandemig a'i effaith barhaol ar y sector, gan gynnwys recriwtio a chadw talent.
- Yr angen i nodi'r hyn y gall y celfyddydau ei gynnig i gynulleidfaoedd a chymunedau, gan eu cefnogi mewn ffordd strategol i greu gwerth am arian ac esgor ar ganlyniadau cadarnhaol – mae hyn yn cymryd amser a buddsoddiad, ac mae angen amser ar sefydliadau i wneud hyn.

- Argyfwng costau byw, gan gynnwys yr argyfwng ynni presennol, sydd wedi arwain at gynnydd sylweddol mewn costau, gan gynnwys costau tanwydd, i sefydliadau. Mae cynnydd mewn costau tanwydd wedi taro'n arbennig o galed mewn ardaloedd gwledig. Mae'r argyfwng hefyd yn effeithio ar gyfranogwyr ac nid yn unig ar y sefydliadau celfyddydol eu hunain. Mae hwn yn fater o bwys i'r rhai sy'n gweithio mewn dull cyfranogol. Mae perygl i'r celfyddydau a diwylliant ddod yn foethusrwydd ychwanegol yn hytrach na hawl.
- Ystyriaethau cyflog teg i staff sefydliadau yn ogystal ag i weithwyr llawrydd, sy'n hanfodol ar gyfer cadw talent o fewn y sector a sbarduno cyfleoedd i bobl ifanc, yn enwedig i'r rhai mewn ardaloedd gwledig. Amlygwyd bod prinder sgiliau a digalondid yn y sector oherwydd bod y celfyddydau wedi cael eu dibrisio'n ddiweddar.
- Mwy o alinio strategaethau i ganiatáu i sefydliadau cenedlaethol a'r rhai sy'n mynd ar daith o amgylch y Deyrnas Unedig gael gwerthoedd a blaenoriaethau cydlynus sy'n gwbl briodol ac effeithiol, ynghyd â meithrin perthynas â grwpiau cymunedol, gwirfoddol, ac awdurdodau lleol.
- Yr angen am fodel ariannol sy'n gyfartal yn ei gynnig ariannol i bob rhan o Gymru, gan gynnwys ardaloedd gwledig. Nodwyd hefyd y gwahaniaeth yng ngallu rhai sefydliadau i ymgeisio i broses Adolygiad Buddsoddi.
- Rydym yn boblogaeth sy'n heneiddio; nid yw'r ddogfen bresennol yn cyfeirio at unigrwydd nac arwahanrwydd fel her gymdeithasol, na chwaith y swyddogaeth ataliol y gall y celfyddydau ei chynnig i'n systemau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae'r ffaith bod y systemau ariannu presennol yn annog cystadleuaeth yn hytrach na chydweithio. Dylid annog sefydliadau i gydweithio'n fwy a hynny'n strategol er mwyn ymgeisio am fwy o arian hirdymor.

## Ein hymateb

Nododd y cwestiwn hwn wrth gwrs lawer o feysydd yr oedd yr ymatebwyr yn eu hystyried yn bwysig. Fe wnaeth yr atebion hefyd ailadrodd llawer o'r un materion a nodwyd eisoes yn y cwestiwn. Roedd yr ailadrodd hwn yn adlewyrchu'r pryderon a welwyd ac a glywyd yn ystod y broses ymgynghori – bod y sector mewn argyfwng yn sgil cyfres o flynyddoedd anhygoel o gythryblus. Roedd yn anodd dadlau gyda'r mwyafrif o'r pwyntiau eraill a godwyd a oedd yn cynnwys lleihad mewn cynulleidfaoedd ar ôl y pandemig, trafferthion artistiaid unigol, sefydlogrwydd cyflogaeth (ochr yn ochr â phrinder sgiliau a grybwyllwyd sawl gwaith drwy gydol yr ymatebion ysgrifenedig a'r sesiynau ar-lein), gwahaniaethau rhanbarthol o ran arian ac argaeledd y celfyddydau. O'r pwyntiau hyn (ac roedd eraill rhy niferus i'w rhestru'n unigol) y rhai a ddigwyddodd amlaf oedd gwahaniaethau daearyddol o ran argaeledd y celfyddydau a phrinder sgiliau.

Bydd ein hadolygiad yn amlhaenog ac er y bydd pob cais yn cael ei asesu i ddechrau ar eu rhinweddau eu hunain. Rydym yn cydnabod pwysigrwydd cymryd golwg lefel uwch a nodi lle mae bylchau (neu – yn wir – warged) mewn categorïau megis (ymhlith pethau eraill) ddaearyddiaeth, celfyddyd a graddfa. Er na fydd y broses hon yn gwarantu ein bod yn creu'r rhwydwaith perffaith o sefydliadau a ariennir o'r diwrnod cyntaf (ni fyddwn yn ariannu ceisiadau gwael dim ond i lenwi bwlch, ac felly mae'n dibynnu ar ansawdd y cyflwyniadau) byddwn yn nodi ble mae'r bylchau yn dal i fodoli ac yn gweithio i fynd i'r afael â'r rhain drwy waith datblygiadol ac ymyriadau ariannu a chymorth eraill.

Cwestiwn: Yn yr adran 'Hanfodion ein dull ariannu newydd' rhan (a) rydym yn mireinio'r meysydd ffocws lefel uchel i chwe blaenoriaeth fwy diffiniedig a fydd yn ffurfio sylfeini ein cwestiynau a'n hasesiad ymgeisio. Ydych chi'n meddwl bod y blaenoriaethau yn adlewyrchu blaenoriaethau'r sector a'r genedl?

Cwestiwn: Ydych chi'n meddwl y dylid dileu unrhyw flaenoriaethau? (Dywedwch wrthym ba rai a pham)

Cwestiwn: Ydych chi'n meddwl bod unrhyw flaenoriaethau ar goll? (Dywedwch wrthym beth a pham)

## Crynodeb o'r ymatebion

Yn ôl y consensws cyffredinol, roedd rhesymeg dros nodi'r chwe blaenoriaeth hyn a chroesawyd y ffocws penodol ar rai o'r meysydd (er enghraifft, cymunedau). Fodd bynnag, nodwyd nad yw blaenoriaethau'r sector o reidrwydd yr un fath â blaenoriaethau'r genedl. Yn ogystal, ni all rhai blaenoriaethau aros tan arian 2024 am gefnogaeth; er enghraifft, byddai peidio ag ariannu datgarboneiddio tan 2024 ond yn gadael chwe blynedd i gyfrannu tuag at gyrraedd dyddiad targed Llywodraeth Cymru ar gyfer 2030 i gyrff cyhoeddus. Roedd yr ymatebion hefyd yn cwestiynu pam nad oedd cyfeiriad mwy amlwg at y Contract Diwylliannol, yn enwedig o dan Drawsnewid, ac nad oedd llawer o gydnabyddiaeth o waith a chyflawniadau presennol llawer o fewn y sector, a'r angen i adeiladu ar hyn

a'i ddatblygu ymhellach. Cynhyrchodd trafodaethau am y blaenoriaethau nifer o sylwadau pwysig, fel y disgrifir isod (dylid nodi bod rhai o'r rhain yn sylwadau unigol ac nid o reidrwydd yn farn y mwyafrif):

- A oedd y blaenoriaethau'n cael eu pwysoli mewn unrhyw ffordd, ac a oes disgwyl i sefydliad gyflawni yn erbyn y chwech? Byddai gofyniad i wneud hynny yn cael goblygiadau ar allu sefydliadau yn enwedig i rai llai. Amlygwyd Celf a Chreadigrwydd yn eithaf annisgwyl mewn rhai ymatebion fel y flaenoriaeth bennaf.
- Mae angen ystyriaeth bellach ar sut mae'r blaenoriaethau'n croestorri ac yn ymwneud â'r saith nod Lles, ac na ddylid eu hystyried yn ffrydiau gwaith ar wahân.
- Bydd rhai o'r blaenoriaethau (er enghraifft, arallgyfeirio'r gweithlu a meithrin arweinwyr) yn heriol, gan ein bod i bob pwrpas yn annog pobl i ddod i sector lle mae'n anodd iawn cynnal gyrfa, yn enwedig gan y gall arian treigl 3 blynedd Cyngor y Celfyddydau wneud cyllidebu'n heriol i rai.
- Awgrym i'w cyfeirio atynt fel 'egwyddorion' yn hytrach na 'blaenoriaethau', gan eu cyflwyno felly'n gydradd ac yn gysylltiedig.
- Annog cadw a chefnogi gweithwyr proffesiynol a sefydliadau presennol a hirsefydledig, yn ogystal â'r newydd a'r ifanc. Awgrymwyd addysg mewn rhai ymatebion fel blaenoriaeth ychwanegol.
- Soniwyd yma eto am ein poblogaeth sy'n heneiddio, gyda'r effeithiau cysylltiedig ag unigrwydd ac iechyd a lles, gan gynnwys iechyd meddwl. Gallai adlewyrchu'n well y cyfleoedd i leihau'r baich ar y GIG a gofal cymdeithasol a darparu mynediad i'r celfyddydau.
- Gellid rhoi mwy o ffocws i ddatblygu'r diwydiant celfyddydol yng Nghymru – darparu celf sy'n diwallu anghenion pobol – a phwyslais cynyddol ar weithio mewn partneriaethau, gan gynnwys y partneriaethau 'anweledig' a'r cysylltwyr.
- Awgrymwyd y gallai fod mwy o bwyslais ar gymunedau a dinasyddiaeth a beth mae'r rhain yn ei olygu'n ymarferol. Yn benodol, amlygwyd gonestrwydd y sgyrsiau rhwng artistiaid a'r cymunedau y maent yn gweithio ynddynt.
- Mae cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn un flaenoriaeth, ond mae goblygiadau'r flaenoriaeth honno'n sylweddol. Gallai Cymru wrth-hiliol fod yn darged penodol sydd wedi'i gwreiddio yng ngwaith yr holl gyrff sy'n cael eu hariannu.
- Er bod pwysigrwydd cyfiawnder yn yr hinsawdd yn cael ei gydnabod, gofynnodd lleiafrif bach a yw'r cyfrifoldeb am hyn yn gorwedd gyda llywodraethau'r Deyrnas Unedig ac nid gyda'r celfyddydau.
- Codwyd blaenoriaeth benodol ychwanegol sef seilwaith, ac mewn lleoliadau penodol y codwyd hyn gan rai – gan gydnabod pwysigrwydd adeiladau a chyfleusterau i gefnogi a chynnal cymunedau creadigol Cymru.

## Ein hymateb

Fe wnaethon ni gydnabod y term 'egwyddorion' fel un mwy priodol na 'blaenoriaethau' yn y broses hon ac felly mae'r ddogfennaeth derfynol yn adlewyrchu'r newid hwn mewn terminoleg.

Nid chafodd unrhyw egwyddor unigol lai na 78% o gytundeb o'r ymatebion ysgrifenedig (a'r cytundeb i raddau helaeth iawn yn cael ei adlewyrchu o fewn y sesiynau ar-lein) mae ein dogfennaeth derfynol yn cadw pump o'r chwe egwyddor heb newid. Newidiwyd 'Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant' i 'Ehangu Ymgysylltiad', fel cydnabyddiaeth o ehangder y gwaith hwn ac i fwrw ymlaen â'r ymrwymiadau a wnaed gennym o dan ein Cynllun Gweithredu Ehangu Ymgysylltiad a gyhoeddwyd ar y cyd mewn partneriaeth ag Amgueddfa Cymru. Mae Ehangu Ymgysylltiad hefyd yn ymwneud â Democratiaeth Ddiwylliannol – pobl a chymunedau yn cael eu grymuso i lywio eu profiadau celfyddydol a diwylliannol eu hunain, i fod yn gyd-gynhyrchwyr a chyd-grewyr ym maes y celfyddydau a diwylliant sy'n adlewyrchu eu profiad personol.

Rydym yn cydnabod bod sawl thema drawsbynciol arall. Mae'r celfyddydau ac iechyd a gweithio gyda phobl iau a phobl hŷn yn ddwy ohonynt a oedd yn sefyll allan yn arbennig o fewn yr ymatebion ysgrifenedig ac yn y sesiynau byw. Er y dylai'r chwe egwyddor yr ydym wedi penderfynu arnynt ymddangos ym mhob cais i raddau amlwg, rydym yn gweld eraill fel rhai sy'n croestorri yn berthnasol i rai ymgeiswyr yn unig. Gwelwn y meysydd hyn yn gwbl annatod i rai, ond nid i bob cais ac felly byddem yn annog ymgeiswyr i ddweud mwy wrthym am eu gwaith yn y meysydd hyn o fewn adrannau eraill o'r ffurflen gais.

### Rhan (b)

Cwestiwn: O edrych ar yr adran 'Hanfodion ein dull ariannu newydd' rhan (b), ydych chi'n meddwl mai un broses ymgeisio i bob ymgeisydd yw'r ffordd gywir ymlaen i sicrhau cysondeb a thegwch? Os nad ydych, dywedwch wrthym pam.

Cwestiwn: Ydych chi'n credu mai'r dull o gynnig arian mwy hyblyg o hyd at dair blynedd, sy'n cael ei adolygu ym mlwyddyn dau, yw'r dull cywir?

Cwestiwn: Ydych chi'n gweld unrhyw bryderon am y dull hwn neu unrhyw beth arall yn adran (b)?

## Crynodeb o'r ymatebion

### Un broses ymgeisio

Roedd y cwestiwn gwreiddiol yn cyfeirio at y dull o gael un broses ymgeisio a oedd yn ymgorffori arian grant craidd a phrosiect ond roedd yr ymatebwyr ar draws yr holl sesiynau yn canolbwyntio mwy ar y bwriad i bob ymgeisydd lenwi'r un ffurflen gais yn yr un broses.

Roedd traean o ymatebion ysgrifenedig yn teimlo bod y dull hwn yn annheg, yn seiliedig ar y graddau amrywiol o allu a phrofiad a oedd gan y rhai sy'n llenwi ceisiadau. Mae'r syniad o ddefnyddio rhyw fath o fandio yn y broses fel yr awgrymir gan rai i fod yn ddull tecach, hynny yw, po fwyaf o arian a geisir, fwyaf manwl y dylai'r cais fod.

Roedd rhai ymatebion hefyd yn galw am gymorth ychwanegol i sefydliadau nad oedd wedi mynd drwy'r broses o'r blaen gan nodi'r anawsterau wrth ragweld tair blynedd yn yr hinsawdd ariannol bresennol.

Cododd llawer y cyfle i ymgeisio drwy fformatau ar wahân i'r ffurflen ar-lein draddodiadol hefyd. Er bod rhai yn awyddus i gael sicrwydd y byddai ceisiadau fideo, sain ac Arwyddeg yn cael eu hasesu mewn ffordd deg, roedd croeso eang i'r dull yn gyffredinol. Gofynnwyd am fwy o fanylion am hyn.

Gofynnwyd hefyd am eglurhad a yw rhaglenni'r Loteri yn dal ar agor i geisiadau prosiect y tu allan i'r cytundebau ariannu amlflwyddyn.

Gofynnwyd hefyd am ragor o wybodaeth ynglŷn â pha ddogfennau y byddai eu hangen ar ymgeiswyr sy'n ymgeisio am naill ai arian craidd neu brosiect, yn ogystal â cheisiadau am gyngor a hyfforddiant mewn meysydd fel cynllunio busnes.

## Ein hymateb

Rydym yn cydnabod yn llwyr y pryder bod llawer o ymatebion yn codi o amgylch gallu ymgeiswyr sydd â gwell adnoddau neu ymgeiswyr mwy profiadol i ddarparu naill ai cais gwell neu i ymgymryd â mwy o weithgarwch yn gyffredinol. Pryderon dilys ydynt ond nid ydym yn teimlo mai'r dull cywir yw cynllunio proses sy'n fwriadol anos i rai nag eraill.

Ar gyfer ystyriaethau asesu, ni fyddwn yn gofyn i wahanol ymgeiswyr lenwi ffurflen wahanol neu i ateb cwestiynau gwahanol. Ond gan ddibynnu ar faint sefydliad a'r swm y mae'n gofyn amdano, byddwn yn disgwyl cael lefel wahanol o fanylion yn yr ymatebion. Bydd angen i ymgeiswyr sicrhau eu bod yn penderfynu ble i gyflwyno'r manylion sydd wedi'u cynnwys yn eu ceisiadau a byddwn yn ystyried eu math a maint eu cais yn ystod ein hasesiad. Er mwyn helpu ymgeiswyr, byddwn yn cyhoeddi gwybodaeth am bob egwyddor ac o'r mathau o feysydd y gallem ddisgwyl i sefydliadau eu hystyried, gan gynnwys, mewn rhai achosion, gofynion sylfaenol.

Ni fyddwn yn cyhoeddi rhestr dic y bydd angen i ymgeiswyr ei llenwi, oherwydd bydd gweithgarwch a chanlyniadau yn amrywio ar draws sefydliadau a gallai droi'n rhywbeth gorfodol. Nid yw hyn yn rhywbeth y gellid ei ragweld yn union, felly yn hytrach na chael meini prawf wedi'u naddu mewn carreg i'w cyflawni mewn 'lefel', byddwn yn gwneud asesiadau yn seiliedig ar briodoldeb swm y cais.

Byddwn hefyd yn cynnig cyfnod ar ddechrau'r broses ymgeisio lle gall sefydliadau siarad â ni, er mwyn eu helpu i benderfynu ai'r Adolygiad Buddsoddi hwn yw'r llwybr mwyaf priodol ar eu cyfer.

### Cyllid hyblyg

Roedd yr ymatebion yn croesawu'r cyfle i ymgeisio am gyfnod o arian a allai fod yn hwy (ond gyda gwiriadau ar ôl dwy flynedd), fodd bynnag roedd ansicrwydd gan rai o gwmpas ymarferoldeb ennill ail set neu fwy o gyfnodau o dair blynedd o arian yn olynol. Nid ystyriwyd bod y ddogfennaeth yn ddigon clir am hynny.

Mynegodd rhai awydd (wrth gydnabod hefyd ei bod yn meddwl am sefyllfa ddelfrydol iawn) i'r cyfnodau fod yn hwy na thair blynedd i gael hyd yn oed mwy o sefydlogrwydd ac i ganiatáu cynllunio a chadw staff yn fwy sefydlog yn y dyfodol.

Roedd y pwyntiau ychwanegol a godwyd yn cynnwys y canlynol:

- Awgrymwyd bod angen eglurhad ynghylch y broses a’r amserlen ar gyfer ymgeisio am arian gan y rhai nad ydynt yn rhan o rownd gyntaf o arian Adolygiad Buddsoddi, neu na fuont yn llwyddiannus ynddi.
- Gofynnwyd am fwy o fanylion am sut y byddem yn asesu sefydliad yn y gwiriad dwy flynedd.
- Eglurhad ai chwe blynedd fyddai’r cyfnod hwyaf o arian a beth fyddai’n digwydd pe byddem

## Ein hymateb

Ar y cyfan, croesawodd yr ymatebion y cylch treigl tair blynedd, ac mae ein dogfennaeth yn cadw hyn fel rhan allweddol o gylch bywyd y sefydliadau a ariennir.

Rydym yn cydnabod bod angen mwy o eglurhad mewn rhai meysydd ac rydym wedi ceisio darparu hyn o fewn y dogfennau terfynol.

Yn benodol, mae’r broses wirio ym mlwyddyn dau wedi’i diffinio’n fwy ac mae’n gysylltiedig â thargedau cytûn ar ddechrau pob blwyddyn. Mae’r angen i ‘ymgeisio’ ar gyfer pob cylch tair blynedd hefyd yn cael sylw ac mae’n gysylltiedig â’r gwiriad, yn ogystal â’r cysyniad o werthuso cynnydd mewn modd llawer symlach, yn hytrach na gofyniad i gyflwyno unrhyw beth mwy ffurfiol. Rydym ni’n gobeithio bod hyn yn bodloni’r ymatebwyr hynny a oedd yn credu bod cylch llawn dros bum mlynedd yr Adolygiadau Buddsoddi yn cael ei fyrhau i gylch tair blynedd oherwydd ein bod yn lleddfu dipyn ar yr ymdrech fawr ynghlwm wrth ymgeisio.

Canlyniad y newidiadau hyn yw proses newydd i greu math o gylch treigl tair blynedd ar gyfer y sefydliadau hynny sy’n parhau i ymateb i anghenion y sector ac felly maent yn parhau i gael eu hariannu (yn amodol wrth gwrs ar unrhyw newidiadau yn y broses yn y dyfodol wrth i ni barhau i ddysgu ac addasu’r dull newydd hwn).

Er hynny, rydym yn cydnabod, gyda’r cylch treigl tair blynedd, y bydd mwy o gyfle i adnewyddu’r grŵp o sefydliadau sydd wedi’u hariannu, gan ddod â sefydliadau newydd i mewn wrth golli’r rhai sy’n tanberfformio neu sy’n llai perthnasol, yn fwy rheolaidd. Bydd sefydliadau cymwys nad ydynt eisoes ar gytundeb o’r fath yn cael cyfle i ymgeisio am arian amlflwyddyn yn flynyddol (sy’n dechrau ar ddiwedd blwyddyn dau).

### Rhan (c)

Cwestiwn: Mae'r adran 'Hanfodion ein dull ariannu newydd' rhan (c) yn disgrifio'r trosolwg lefel uchel o'r hyn y byddwn yn gofyn i sefydliadau ei wneud er mwyn ymgeisio.

Ydych chi'n meddwl bod unrhyw beth arall y dylem ni fod yn gofyn amdano? Beth a pham?

Cwestiwn: Ydych chi'n meddwl ein bod ni'n gofyn am unrhyw beth na ddylem ni? Beth a pham?

## Crynodeb o'r ymatebion

Cynhyrchodd hyn nifer o ymatebion yn gofyn am eglurhad ychwanegol o'r hyn y gellir ei ystyried yn arfer da a sut y gall hyn wedyn effeithio ar sefydliad a allai fod yn treialu ffyrdd newydd ac arloesol o weithio. Roedd sylwadau ychwanegol yn cynnwys:

- A fyddai ein datganiad ynghylch dibynnu llai ar hanes o lwyddo yn fanteisiol i sefydliadau sy'n perfformio'n waeth yn hanesyddol? A allai hanes o lwyddo fod yn ystyriaeth bwysig i rai ddangos tystiolaeth o'u gallu i gyflawni'r canlyniadau yn eu ceisiadau?
- Croesawyd ein hymrwymiadau i gydraddoldeb ac amrywiaeth ac roedd yr ymatebwyr yn awyddus i ni gyflawni newid a gwelliannau yn y meysydd hyn.
- Dywedodd sawl un fod arian craidd yn bwysig, ac mai Cyngor y Celfyddydau oedd un o'r ychydig ffyrdd y gallai rhai gael mynediad i'r rhan hon o'u harian, gan na fydd unrhyw ymddiriedolaeth na sefydliad yn cynnig arian craidd i sefydliad. Roedd croeso i'r cymorth hwn dros u cyfnod hwy.
- Thema gyffredin yn yr ymatebion oedd yr angen am fwy o fanylion am sut y byddem yn monitro cynnydd sefydliad yn ôl ei dargedau.

## Ein hymateb

Rydym wedi ymateb yn rhannol i'r hyn sy'n arfer da yn yr ymateb blaenorol gan bwysleisio (er y gallwn gynnig arweiniad, cyfeirio ac enghreifftiau o arfer da) y gallai hyn fod yn rhy gyfyngus gan fygu arloesedd a gweithgarwch. Mae hefyd mewn perygl o beri bod ceisiadau'n adlewyrchu'n ôl atom yr enghreifftiau hyn yn y meini prawf a dim byd arall, yn hytrach nag ystyried a gweithredu eu cynlluniau eu hunain mewn ffordd sy'n gweddu i'w sefydliad yn ogystal â'r sector.

Mewn ymateb i un o'r meysydd allweddol eraill a godwyd o amgylch hanes o lwyddo, rydym wedi egluro hyn o fewn y ddogfennaeth derfynol wrth i ni gydnabod ei fod wedi achosi rhywfaint o ddryswch. Mae hanes o lwyddo yn bwysig i rai wrth gwrs, ond ni ddylid cymryd yn ganiataol y bydd sefydliad sydd â hanes o lwyddo yn parhau gyda'r un math ar waith neu'r un ansawdd â'r gwaith, neu y byddai sefydliad eisiau gwneud hynny. Yn y bôn, rydym yn chwilio am geisiadau i ddangos tystiolaeth o sut y byddant yn cyflawni'r canlyniadau y maent yn eu cynnwys o fewn eu cais a gallai hyn gynnwys cyfeirio at hanes o lwyddo ai peidio. Gobeithiwn y bydd hyn yn rhoi fwy o gyfle i dderbyn arian i'r sefydliadau hynny sydd â syniadau da nad ydynt eto wedi gallu eu rhoi ar waith.

Rydym hefyd wedi egluro statws y cynllun busnes fel dogfen ategol y mae'n rhaid i sefydliadau ei chyflwyno gyda'u cais oherwydd y credwn fod cynllunio da yn allweddol i'r holl sefydliadau (wrth gydnabod y bydd rhai cynlluniau busnes yn llawer ysgafnach ac yn fwy ysgafndroed). Ni fyddwn yn asesu cynlluniau busnes yn eu rhinwedd eu hunain, ond gall ymgeiswyr gyfeirio at rannau penodol ohonynt o fewn y cais er mwyn osgoi rhannau helaeth o ailadrodd. Rhaid cyfeirio'n glir atynt yn y cais. Dylid canolbwyntio arnynt hefyd yn hytrach na chyfeirio at adrannau mawr mewn ffordd lai defnyddiol.

Yr Ymatebion

# Rhan Dau: Ymuno â'n taith – sut a phryd

Cwestiwn: O edrych ar yr adran 'Ein hymrwymiad i chi', ydych chi'n meddwl bod ein hymrwymiadau i chi yn ddigon clir?

Cwestiwn: Oes unrhyw ymrwymiadau eraill gan Gyngor Celfyddydau Cymru y byddech yn dymuno eu gweld yn ystod y broses?

## Crynodeb o'r ymatebion

Roedd yr ymatebion yn croesawu'r didwylledd, tryloywder a'r cyfle i gymryd rhan mewn trafodaethau Adolygiad Buddsoddi a roddwyd gan yr Ymgynghoriad a mynegwyd ddymuniad i weld hyn yn parhau drwy weddill y broses.

Codwyd darparu cymorth ychwanegol (ar ffurf y cyfle i ymgeisio am arian datblygu busnes gan Greu), yn enwedig i sefydliadau llai a'r rhai nad oeddynt wedi cymryd rhan yn yr Adolygiad Buddsoddi o'r blaen a chroesawyd hyn yn gam tuag at hyrwyddo tegwch yn y broses. Clywsom y dylai'r gefnogaeth hon fod ar gael hefyd i sefydliadau nad ydynt efallai'n barod i ymgeisio i'r rownd hon, ond a allai fod yn berthnasol i'r blynyddoedd i ddod, ac y dylai Cyngor y Celfyddydau wneud darpariaeth i sefydliadau gael sgyrsiau gonest am hyn, cyn gwneud unrhyw gais.

Cyfeiriodd llawer at y berthynas rhwng yr ymgeisydd a Chyngor y Celfyddydau, a'r datganiadau cadarnhaol yr ydym wedi'u gwneud am droi'r sefyllfa'n debycach i'r un rhwng partneriaid nag oedd yn ymddangos o bosibl o'r blaen. Er bod rhai yn gweld y bydd bod yn gorff ariannu bob amser yn awgrymu grym, roedden nhw'n awyddus i'r dull partneriaeth hwn gael ei ddatblygu fel y disgrifiwyd yn y ddogfen.

Roedd teimlad bod angen i sefydliadau llai gredu eu bod nhw'n cael eu cefnogi a bod ganddyn nhw fwy o lais nawr nag yn y gorffennol. Roedd yr ymatebion yn nodi bod rhai wedi teimlo eu bod wedi cael eu defnyddio gan sefydliadau mwy i'w helpu i gyrraedd eu targedau ac nad oes ganddynt fecanwaith diogel i godi pryderon o fewn y sector.

Codwyd y cyfle i rwydweithio a sut y gallai hyn gynorthwyo cyd-greu, ac fe'i hystyriwyd yn arbennig o ddefnyddiol i sefydliadau llai sydd weithiau'n ei chael hi'n anodd cysylltu â'r cwmnïau mwy.

## Ein hymateb

Ar y cyfan, roeddem yn falch bod 84% o'r ymatebion yn dweud bod ein hymrwymiad yn glir a bod y prif bwyntiau uchod yn adlewyrchu sut y gellid gwella ein hymrwymiadau.

Yn benodol, gofynnodd yr ymatebion am fwy o fanylion o'r broses ymgeisio ac adolygu a cheisiwyd mynd i'r afael â hyn o fewn ein hadran cwestiynau cyffredin ar dudalen yr Adolygiad Buddsoddi, ond hefyd wedi cynnwys llawer mwy o fanylder o fewn y dogfennau terfynol.

Codwyd cymorth ymgeisio hefyd ac mae'n rhywbeth yr ydym wedi ymrwymo'n llwyr i'w ddarparu. Rydym wedi bod yn glir o ddechrau'r broses bod hygyrchedd yn un o egwyddorion sylfaenol yr adolygiad, ac y bydd unrhyw ymgeisydd yn gallu cysylltu â ni i ddarganfod y ffordd orau y gallwn eu cefnogi. Nid yw'r egwyddor hon wedi newid ac mae mwy o fanylion o fewn y dogfennau terfynol. Bydd opsiynau manylach (gan gynnwys ceisiadau sain a fideo, gan gynnwys Arwyddeg) a phrosesau'n cael eu cyhoeddi cyn gynted ag y byddant ar gael.

O ran ymrwymiadau eraill yr oedd yr ymatebwyr yn teimlo y dylai Cyngor y Celfyddydau eu gwneud, rydym yn cydnabod yr awydd i ymgeiswyr siarad â ni am gyngor yn ystod y broses ymgeisio. Er na fyddwn yn gallu darparu cyngor penodol am y manylion y dylai ymgeiswyr eu cynnwys yn eu cais (gan y byddai gan hynny'r potensial i fanteisio rhai dros eraill a gwrthdaro â'n proses asesu ein hunain), rydym bellach yn cynnwys cyfnod yn ein hamserlen pan all sefydliadau siarad â ni am yr ochr ymarferol o ymgeisio; dylai hyn hefyd eu helpu i benderfynu os ymgeisio yw'r peth iawn iddyn nhw ar hyn o bryd. Byddwn hefyd yn cyhoeddi manylion am arferion da ar ein gwefan, gan gynnwys meysydd fel cynllunio busnes, ynghyd ag adnoddau defnyddiol eraill a fydd yn helpu ymgeiswyr i wella eu cynllun busnes a'u cais.

Nodwyd hefyd yr angen am gefnogaeth gan swyddogion Cyngor y Celfyddydau a'r ffaith y dylent fod yn fwy gweladwy yn y dyfodol. Byddwn ni'n parhau i adolygu sut mae'r berthynas rhwng swyddogion a sefydliadau sy'n cael eu hariannu yn datblygu ac yn sicrhau bod hyn yn addas ar gyfer ein sefydliadau sy'n cael eu hariannu yn y dyfodol.

Cwestiwn: Yn yr adran 'Sut gall sefydliadau ymgeisio am arian amlflwyddyn' rydym yn disgrifio trosolwg ar y broses a'r amserlen. Ydych chi'n deall beth fyddwn ni'n gofyn amdano a'r prif ddyddiadau ar gyfer ymgeisio a phenderfynu?

Cwestiwn: Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach am y trosolwg neu'r amserlen?

## Crynodeb o'r ymatebion

Defnyddiodd rhai'r cwestiwn hwn i ganolbwyntio'n fwy ar natur amlflwyddyn ceisiadau yn hytrach na'r amserlen yn uniongyrchol a nododd bron pob ymateb fod hyn yn gam cadarnhaol. Roedd hyn i'w weld yn enwedig fel cam cadarnhaol i sefydliadau llai a oedd yn cael eu hariannu'n draddodiadol gan y Loteri.

Codwyd ystyriaethau ymarferol ynghylch argaeledd y ffurflen gais ac arweiniad mewn fformat y gellid ei rannu cyn i'r ffenestr ymgeisio agor. Ystyriwyd statws y cynllun busnes fel dogfen ategol hefyd, gan gynnwys gofyn a fyddem yn cynnig templedi neu esiamplau ar gyfer hyn.

Roedd yr ymatebion yn adlewyrchu ein cydnabyddiaeth bod angen i'r broses fod mor syml â phosibl er mwyn i ymgeiswyr barhau â'u rhaglenni gweithgarwch rheolaidd wrth lenwi'r wybodaeth ofynnol. Roedd hyn eto'n gysylltiedig â sicrhau proses deg ar gyfer sefydliadau bach a mawr.

Roedd rhai ymatebion yn tynnu sylw at hyd yr amser rhwng penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ac arian yn cael ei ryddhau, ac a ellid cwtogi hyn.

## Ein hymateb

Roedd llawer o'r ymatebion yn cyfeirio at egwyddor o ariannu amlflwyddyn ac elfen cynllun busnes y cais yn hytrach na'r broses ymgeisio ei hun. Mae'r rhain wedi cael eu hateb mewn mannau eraill o fewn y ddogfen hon.

O ran yr amserlen a'r broses, dywedodd 90% o gyflwyniadau ysgrifenedig eu bod yn teimlo eu bod yn glir ac fe gafodd y cytundeb cyffredinol hwn ei adlewyrchu yn y sesiynau ar-lein. Dywedodd rhai bod yr amser tan gael yr arian yn hir iawn, ond roedd eraill yn poeni mwy am eu gallu i lenwi cais yn yr amserlen. Felly, mae dyddiad cyntaf y cyfnod ariannu yn aros yr un fath (1 Ebrill 2024) a chynhwysir yr amserlen lawn o fewn y ddogfennaeth derfynol.

Mae ymholiadau ynglŷn â statws y cynllun busnes hefyd wedi eu hateb mewn mannau eraill o fewn y ddogfen a byddwn yn sicrhau bod fersiwn o'r ffurflen i'w hislwytho ar gael i gynorthwyo sefydliadau yn eu hystyriaeth o'r cwestiynau (er bod rhaid gwneud ceisiadau drwy'r porth, nid drwy lenwi'r ffurflenni a islwythir).

Cwestiwn: Yn yr adran 'Ein proses asesu' rydym yn disgrifio taith fewnol eich cais. Ydych chi'n deall pa gamau y bydd eich cais yn mynd drwyddynt fel rhan o'r broses asesu?

Cwestiwn: Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach am 'Ein proses asesu'?

## Crynodeb o'r ymatebion

Nododd yr ymatebion sawl cwestiwn ynghylch eglurhad pellach mewn ymateb i'r maes hwn, gan gynnwys:

- Yr angen am wybodaeth am y broses asesu fod yn fwy penodol, gan gynnwys egluro swyddogaeth y Cydweithwyr a sut y gellid ystyried gwaith blaenorol.
- Cyfle i gael sgyrsiau â Chyngor y Celfyddydau yn ystod y broses, yn enwedig lle ceisir eglurhad pellach.
- Cyfansoddiad y grwpiau asesu ar wahanol gamau o'r broses a sicrhau bod y grwpiau'n cael hyfforddiant priodol.
- Eglurhad pellach am y ffactorau penderfynu ar gyfer arian parhaus.
- A fyddai ar gyfer (er enghraifft) gelfyddydau arbennig neu ardaloedd daearyddol penodol unrhyw gwotâu neu bwysoli o ran blaenoriaethau neu arian?
- Y broses ar gyfer penderfynu ar lefel yr ariannu y bydd sefydliad yn ei dderbyn, yn enwedig pan fo'r galw'n fwy na'r gyllideb.
- Y mecanwaith ar gyfer rhoi adborth i sefydliadau am eu ceisiadau a'r gefnogaeth sydd ar gael i sefydliadau aflwyddiannus sy'n derbyn arian craidd ar hyn o bryd.

## Ein hymateb

Er bod 95% o'r ymatebion ysgrifenedig yn dweud bod y camau asesu yn glir, mae sawl maes sydd wedi cael eu hegluro a'u hehangu yn y dogfennau terfynol.

Yn benodol, rydym wedi bod yn gliriach am yr egwyddorion a sut bydd y rhain yn cael eu hystyried ochr yn ochr â ffactorau eraill, fel daearyddiaeth a'r celfyddydau. Mae hyn hefyd yn cysylltu â sut y byddwn yn asesu ceisiadau os oes gennym, fel y disgwyliwn, fwy o alw nag arian sydd ar gael. Bydd un cam o'r broses yn edrych ar bob cais ac yn ystyried sut mae ceisiadau yn effeithio ar y ffactorau eraill hyn er mwyn cael y cydbwysedd gorau, neu i benderfynu lle y gallai fod angen cymorth ychwanegol i lenwi bylchau yn y ddarpariaeth. Byddwn yn egluro i bob ymgeisydd aflwyddiannus pam na chafodd ei gais ei ariannu fel rhan o'r broses benderfynu.

Byddwn hefyd yn cynnig cefnogaeth i'r sefydliadau hynny sy'n aelodau presennol o Bortffolio Celfyddydol Cymru nad ydynt yn llwyddiannus y tro hwn a byddwn yn cynnig gwybodaeth fanylach yn ddiweddarach. Gallai hyn gymryd ffurf cymorth ymarferol neu ariannol gan ddibynnu ar yr amgylchiadau unigol.

Cwestiwn: Yn yr adran 'Sut y byddwn yn asesu ceisiadau' rydym yn disgrifio'r dogfennau sylfaenol a'r ffactorau ehangach a fydd yn sail i'n hasesiad o geisiadau. Ydych chi'n deall pa wybodaeth y byddwn yn ei defnyddio fel rhan o'r broses asesu?

Cwestiwn: Oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau pellach ar 'Sut y byddwn yn asesu ceisiadau'?

## Crynodeb o'r ymatebion

Mae ymatebion yma'n cael eu cysylltu'n anorfod â'r cwestiwn uchod. Roedd sylwadau ychwanegol yn gofyn am egluro diffiniad a chwmpas cyfeiriad Cyngor y Celfyddydau at 'wybodaeth yn y parth cyhoeddus' ac yn ei 'gofnodion ei hun'. Nodwyd bod y cyfeiriad at berfformiad yn awr ac yn y gorffennol hefyd i'w weld yn gwrthddweud y ffocws cynharach ar symud ymlaen yn hytrach nag ystyried gwaith blaenorol.

Ymhlith y sylwadau newydd eraill roedd:

- A fyddai cefnogaeth ar gael i sefydliadau yn gyffredinol (yn enwedig y rhai nad ydynt ar hyn o bryd yn rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru ac sydd â gallu cyfyngedig) ac a fyddai cefnogaeth ychwanegol ar waith i'r rhai oedd ei angen (gan gynnwys sefydliadau dan arweiniad pobl anabl)? Gofynnwyd hefyd a fyddai cymorth yn cynnwys cymorth gyda dogfennau ategol a phryd y byddai ar gael.
- Ystyried y Contract Diwylliannol ymhellach a sut mae hwn yn cyd-fynd â'r cais.
- Roedd rhai ymatebion yn gofyn a fyddwn ni'n rhoi mwy o fanylion am 'sut olwg fyddai ar waith da'.
- Y posibilrwydd o gydweithio gyda'r undebau creadigol wrth ystyried meysydd fel tâl teg a gwaith teg.
- Amlygwyd hefyd yr angen am eglurhad o'r amserlen ar gyfer cyhoeddi cynllun hirdymor newydd Cyngor y Celfyddydau i gynorthwyo sefydliadau gyda'u ceisiadau.

## Ein hymateb

Dywedodd 91% o'r ymatebion ysgrifenedig fod y broses asesu yn glir, ond mae'n amlwg o hyn a'r sesiynau ar-lein fod cwestiynau o hyd angen eu hateb ar hyn o bryd. Mae hyn yn rhywbeth yr oeddem yn ei ragweld gan mai'r bwriad o gasglu'r adborth hwn oedd caniatáu inni wrando ar ymatebwyr a mireinio'r broses yn ôl eu sylwadau.

Rydym wedi egluro sut y gall ymgeiswyr gyflenwi enghreifftiau o waith artistig gan ddefnyddio dolenni. Fodd bynnag, y ffurflen gais yw'r brif ffynhonnell o wybodaeth fydd yn cael ei hasesu o hyd.

Rydym wedi rhoi mwy o wybodaeth am fformatau amgen i geisiadau sy'n cyfeirio yn benodol at rai sain a fideo (yn Gymraeg a Saesneg) a byddwn yn rhoi arweiniad ar wahân am sut i ymgeisio drwy'r fformatau hyn.

Mae'r wybodaeth rydym ni'n ei defnyddio sydd yn y parth cyhoeddus yn rhywbeth mwy cymhleth. Rydym wedi gwneud hyn yn gliriach yn y ddogfen Canllawiau.

Cwestiwn: Yn yr adran 'Ein cynnig ariannu' rydym yn disgrifio, ar lefel uchel, y cyfnodau arfaethedig o arian y gallem eu cynnig a phryd y gellid eu hadnewyddu (mae sut y gallai sefydliadau ymadael â'r trefniadau ariannu hyn yn rhan o broses ar wahân). Ydych chi'n deall ac yn cytuno gyda'r hyn rydym ni'n ei gynnig yma?

Cwestiwn: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar unrhyw beth yn yr adran hon?

## Crynodeb o'r ymatebion

Mae llawer o'r ymatebion yn dangos bod y prif bwyntiau eisoes wedi'u gwneud mewn ymateb i'r cwestiynau cynharach. Roedd sylwadau ychwanegol a oedd yn ymateb i'r cwestiwn hwn yn gofyn am eglurhad am:

- Wrth ymgeisio a oes rhaid i'r ymgeisydd wybod os tair blynedd neu chwe blynedd yw'r cyfnod pendant ei gais?
- Unrhyw ddarpariaeth o sesiynau i gefnogi'r gwaith o gasglu tystiolaeth a datblygu cynllun busnes.
- Arweiniad pellach am faint o arian y gallai neu y dylai sefydliadau ofyn amdano.
- Cydnabyddiaeth bod newid yn cymryd amser, ac efallai na fydd rhai sefydliadau yn cyflawni'r holl newidiadau a ddymunir o fewn y cylch ariannu tair blynedd, yn enwedig gyda'r gwiriad yn digwydd ym mlwyddyn dau.
- Hyd yr amser mae'n rhaid i sefydliad aros cyn ailymgeisio, os yw ei gais yn cael ei wrthod yn y rownd hon.
- Ein disgwyliadau o gywirdeb cyllidebau ar gyfer y tair blynedd o arian, o ystyried yr ansicrwydd economaidd presennol.

## Ein hymateb

Eto, mae rhai o'r ymatebion i'r rhain wedi cael eu hateb cynt ac nid ailadroddwn yma ein sylwadau uchod.

Byddwn yn glir o fewn y canllawiau terfynol ein bod yn cydnabod y gallai cyllidebau fod yn ansicr, yn enwedig nawr, a'u bod dim ond yn gallu bod yn ddangosol. Fodd bynnag, credwn ei bod yn hanfodol i sefydliad iach allu cynllunio'n ystwyth â ffigyrau a gweithgarwch a allai newid wrth i sefyllfaoedd newid.

Rydym hefyd yn egluro y byddwn yn tybio bod pob sefydliad yn ymgeisio am arian tair blynedd treigl ac mai gwiriad blwyddyn 2 fydd y pwynt y bydd penderfyniadau am gyfnodau ariannu yn y dyfodol yn digwydd.

Ni fyddwn ni'n rhoi arweiniad ynghylch faint o arian y dylai sefydliadau ofyn amdano. Dylai ymgeiswyr ystyried eu hanghenion yn ofalus, gan ystyried eu canlyniadau arfaethedig a deall bod y gyllideb sydd ar gael i ni ar gyfer y broses hon yn debygol o fod yn rhy ychydig i ateb pob diben. Mae'n rhaid i ymgeiswyr allu dangos tystiolaeth o'u hangen, ond mater i sefydliadau, eu tîm a'u bwrdd yw sut maen nhw'n cyrraedd y ffigwr arfaethedig.

Cwestiwn: Mae'r adran 'Monitro ac atebolrwydd' yn rhoi trosolwg lefel uchel iawn o'r egwyddorion yr ydym yn cynnig eu defnyddio ar gyfer monitro sefydliadau sy'n cael eu hariannu. Gan gydnabod nad yw'r manylion llawn (gan gynnwys elfennau fel y Contract Diwylliannol) ar gael eto, ydych chi'n deall egwyddorion cyffredinol o ddefnyddio cytundebau ariannu a'r Contract Diwylliannol arfaethedig fel rhan o'r broses fonitro yn gyffredinol?

Cwestiwn: Oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill am yr adran 'Monitro ac atebolrwydd'?

## Crynodeb o'r ymatebion

Er bod rhai ymatebion yn nodi nad oedd ganddynt sylwadau mewn ymateb i'r adran hon, cododd eraill nifer o sylwadau a oedd yn gofyn am eglurhad pellach:

- Dylai lefelau monitro fod yn deg ac nid yr un peth i bawb. Dylai fod hyblygrwydd, gyda rhai sefydliadau yn darparu lefel uwch o fanylion nag eraill.
- A oedd yn bosibl i ddata monitro gael ei gyflwyno'n ôl i'r sefydliadau ar ffurf y gellir ei defnyddio (a'i chyfuno) a fyddai o fudd i'r sefydliadau? Roedd galw am fwy o fanylion ynglŷn â gofynion monitro yn y dyfodol gan y byddai'r manylion hyn yn helpu pobl i ystyried yr adnoddau sydd eu hangen a phenderfynu os mai cais i'r Adolygiad Buddsoddi oedd y llwybr mwyaf priodol iddyn nhw ar hyn o bryd.

- A fydd Cyngor y Celfyddydau yn adrodd am ei gynnydd ei hun mewn meysydd targed allweddol yn yr ysbryd o fod mewn partneriaeth?
- A fyddai cefnogaeth yn cael ei darparu i sefydliadau i gyflawni yn ôl y gofynion monitro?
- Sut y bydd Cyngor y Celfyddydau yn monitro cynnydd yn ôl targedau?
- A allwn ni ddarparu mwy o wybodaeth am waith teg a thâl teg?

## Ein hymateb

Mae rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd wedi cael eu hateb o'r blaen yn ein hymatebion uchod, ond un o'r pwyntiau allweddol yr ydym wedi ei ddeall a'i dderbyn yw'r un a ddaeth o'r ymgynghoriad sef bod angen teilwra'r monitro yn fwy i'r sefydliad penodol a ariennir.

Rydym wedi diweddaru ein gofynion monitro gofynnol, ond dylid cydnabod, gan ddibynnu ar amgylchiadau unigol sefydliadau, y gallwn ofyn am fwy o wybodaeth yn ystod y flwyddyn. Bydd hyn yn cael ei wneud yn glir fel rhan o drafodaethau'r cytundeb ariannu cyn dechrau pob blwyddyn ariannol.

Rydym yn adrodd am ein perfformiad ein hunain drwy ein Hadroddiadau Blynyddol cyhoeddedig. Byddwn ni'n amlinellu sut y byddwn yn bwriadu adrodd yn erbyn ein targedau strategol ein hunain pan fyddwn ni'n cyhoeddi ein strategaeth 10 mlynedd yn 2023, gan fod hyn yn cael ei ystyried yn rhan allweddol o ddull partneriaeth.

Byddwn hefyd yn nodi meysydd lle teimlwn fod angen cefnogaeth bellach ar y sector a chyhoeddi manylion y gefnogaeth y gallwn ei gynnig yn y meysydd hyn. Dylai sefydliadau nodi hefyd ein bod eisoes yn cydnabod nad yw pob sefydliad yn meddu ar yr un sgiliau ar hyn o bryd ac y gallan nhw ymgeisio am gymorth i ddatblygu busnes o dan ein rhaglen ariannu Creu Loteri am gymorth.

Cwestiwn: O edrych ar yr adran 'Cymhwystra' ydych chi'n deall pwy all ymgeisio fel rhan o'r broses hon yn seiliedig ar y wybodaeth a ddarperir?

Cwestiwn: A oes unrhyw newidiadau y byddech yn eu gwneud i'r meini prawf cymhwystra? Os felly, beth ydyn nhw a beth yw eich rhesymau?

## Crynodeb o'r ymatebion

Ar y cyfan, ysgogodd yr adran hon lai o sylwadau nag eraill a'r consensws oedd bod y meini prawf yn ymddangos yn deg.

Nodwyd gan rai ymatebion fod dull arfaethedig yr Adolygiad Buddsoddi yn gyfle i ddod â mwy o grwpiau newydd i gael yr arian ac y dylai Cyngor y Celfyddydau edrych yn ffafriol ar bartneriaethau cydweithiol rhwng grwpiau cymunedol a sefydliadau mwy strategol. Roedd rhai'n meddwl, sydd eisoes wedi'i gynnwys o fewn y ddogfen ymgynghori, y gallai sefydliadau fod â grŵp ymgynghori yn hytrach na bwrdd, ac efallai na fydd sefydliadau llai yn gymwys o dan y meini prawf a nodir (yn enwedig nifer yr aelodau o'u bwrdd).

Cafwyd cais hefyd i fentrau cydweithredol a ffyrdd cydweithredol o weithio i fod yn gymwys.

Roedd yr ymatebion yn nodi bod y ddogfen yn aneglur ynglŷn â'r arian ar gyfer addysg ac ysgolion, gan nodi y gallai awdurdodau lleol ymgeisio ond nid ysgolion. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn rhwystr i nifer o ddisgyblion difreintiedig o bob cefndir rhag cael mynediad at y celfyddydau. Nodwyd bod y cyfeiriad at 'brifysgolion' yn amwys.

Gofynnwyd am eglurhad ynghylch yr ymadrodd 'wedi'i leoli yng Nghymru' ac a yw hyn yn cyfeirio at gyfeiriad ffisegol yng Nghymru neu at weithio yng Nghymru. Roedd hyn yn bwysig i sefydliadau a allai fod yn rhan o grŵp mwy ledled y Deyrnas Unedig, ac y gallai eu prif gyfeiriad fod y tu allan i Gymru, ond sydd â gweithwyr yng Nghymru.

Codwyd cwestiwn hefyd a fyddai Cyngor y Celfyddydau yn cydnabod hanes sefydliad a oedd wedi diweddaru ei gyfansoddiad yn ddiweddar.

Amlygwyd hefyd fod y ffordd y byddwn yn ymgysylltu â gweithwyr llawrydd yn bwysig.

Cydnabuwyd hefyd fod Lloegr a'r Alban yn darparu arian craidd i unigolion yn ogystal â sefydliadau, gan ddarparu arian parhaus i gefnogi unigolion rhyfeddol a pherthynas nodedig â chynulleidfa. Gofynnwyd a allai hyn fod yn ddull i ni ei ystyried hefyd.

Gofynnwyd am eglurhad hefyd gan y sefydliadau hynny a allai fod yn rhan o grŵp ehangach ac felly'n rhannu cynllun busnes cyffredinol neu sydd â chynllun gweithgarwch ategol yn hytrach na meddu ar eu cynllun busnes eu hunain.

Codwyd y cwestiwn a oedd yn rhaid archwilio'r cyfrifon, gan y byddai hyn yn golygu costau ychwanegol, yn enwedig i sefydliadau llai.

## Ein hymateb

Ychydig o bryder a fynegwyd am y ffaith bod yr Adolygiad Buddsoddi ar gael i sefydliadau yn unig, ac felly dim ond ceisiadau gan sefydliadau yn hytrach na chan unigolion y bydd yr Adolygiad Buddsoddi yn eu derbyn.

Roeddem ni wedi edrych ar y gofyniad am isafswm nifer yr ymddiriedolwyr a chydnabod yr anhawster y gallai rhai sefydliadau llai ei gael wrth gyflawni hyn. Felly, rydym wedi lleihau hyn i dri ymddiriedolwr heb gysylltiad ar draws pob cais. Dylai sefydliadau mwy barhau i edrych ar arferion da ynglŷn â chael grŵp mwy o ymddiriedolwyr. Gall sefydliadau gyda dim ond dau ymddiriedolwr barhau i fod yn berthnasol i raglenni ariannu eraill yr ydym yn eu cynnig, ond roeddem o'r farn fod natur tymor hwy yr arian hwn yn gofyn am grŵp mwy i sicrhau cynllunio a llywodraethu effeithiol.

Rydym hefyd yn cydnabod gwerth cydweithio gan ei gynnwys hyn o fewn y dogfennau ymgynghori cychwynnol. Rydym yn dal i gredu hyn ac yn croesawu ceisiadau sy'n cynnwys cydweithio, ond mae dal i fod angen un sefydliad cymwys i weithredu fel ymgeisydd arweiniol.

Y rhaglen Dysgu Creadigol Drwy'r Celfyddydau yw (a bydd) ein llwybr i weithio gydag ysgolion ac felly nid ydym wedi newid y cymhwystra yn hyn o beth. Fodd bynnag, rydym wedi egluro, ar gyfer awdurdodau lleol neu brifysgolion, rydym yn cyfeirio'n benodol at adrannau awdurdod lleol neu brifysgol sydd â ffocws cyhoeddus, celfyddydol (megis canolfan neu leoliad celfyddydol).

Rydym wedi egluro hefyd, er y gallai ymgeisydd fod yn rhan o sefydliad mwy sy'n gweithio y tu allan i Gymru, fod angen i sefydliad sy'n ymgeisio gael sylfaen ac adeilad yng Nghymru ac mai dim ond ariannu'r gwaith y mae'r tîm yng Nghymru'n ei wneud y gallwn ei wneud, er y gallai hyn olygu rhywfaint o waith y tu allan i Gymru.

Mae hyn hefyd yn cysylltu â'r ymholiad am gynlluniau busnes ac a ddylai sefydliad sy'n rhan o grŵp ehangach gyflwyno ei gynllun â'i ffocws ei hun neu un y sefydliad ehangach. Os yw ymgeiswyr yn teimlo y byddai hyn yn fwy priodol, gallant gyflenwi'r ddogfen â mwy o ffocws, ond dylai gynnwys elfennau allweddol y cynllun busnes. Os ydynt yn darparu'r ddogfen fwy, dylem allu nodi'n glir unrhyw feysydd y cyfeirir atynt o fewn atebion y ffurflen gais, er mwyn caniatáu inni asesu'r cais yn iawn.

Mae gweithwyr llawrydd yn rhan allweddol o seilwaith y celfyddydau. Byddwn yn parhau i weithio gyda gweithwyr llawrydd drwy ein rhaglenni grant eraill a byddem yn disgwyl gweld gweithwyr llawrydd yn chwarae rhan allweddol wrth ddarparu cynlluniau ymgeiswyr.

Gallu profi bod gan sefydliad brofiad llywodraethol ac ariannol oedd ein prif reswm dros gynnwys yr angen i weld dwy flynedd o ddatganiadau ariannol. Rydym wedi diwygio'r meini prawf i'w wneud yn gliriach ac i gydnabod nad yw newid strwythur o reidrwydd yn golygu colli'r profiad hwnnw.

Atebwyd nifer o'r sylwadau eraill o fewn y cwestiynau cyffredin ac ni fyddwn yn ailadrodd yr atebion yma.

Cwestiwn: Oes gennych chi unrhyw sylwadau ar ein proses apelio?

## Crynodeb o'r ymatebion

Roedd dogfen y Broses Apelio wedi bod yn destun ymgynghoriad ar gyfer yr Adolygiad Buddsoddi blaenorol a – heblaw am y dyddiadau – mae wedi aros yr un fath ers hynny. O ganlyniad, ychydig iawn o sylw oedd ynghylch hyn yn ystod y sesiynau, heblaw am geisio eglurhad am y canlynol:

- A fydd sefydliad yn gallu apelio ar sail effaith colli arian, gan nad oedd yr asesiad effaith yn ystyried yr economïau gwahanol presennol ar draws rhanbarthau Cymru?
- Yr awydd i weld data cyhoeddedig am apeliadau a'u cyfradd llwyddiant, er mwyn hwyluso gwneud penderfyniadau tryloyw.

## Ein hymateb

Bydd y broses asesu yn ystyried ffactorau fel daearyddiaeth fel rhan o'r ystyriaethau a lle mae bylchau yn dal yn amlwg ar ôl i ni wneud ein penderfyniadau, byddwn yn edrych i fynd i'r afael â'r rhain fel rhan o'n rhaglen waith ehangach.

Mae'r broses apelio yn aros heb ei newid heblaw am newid rhai dyddiadau.

Cwestiwn: Oes gennych chi unrhyw sylwadau am yr asesiad o effaith?

## Crynodeb o'r ymatebion

Nid oedd gan y rhan fwyaf o ymatebion unrhyw sylw am yr Asesiad drafft o'r Effaith Gyfun. Nododd rhai ei fod yn ymddangos yn gadarn gyda rhai canlyniadau cadarnhaol; fodd bynnag, nododd ymatebion eraill y sylwadau canlynol:

- Nid yw anghydraddoldeb oedran yn rhoi digon o sylw i dlodi ymhlith pobl hŷn; mae llawer o bobl sy'n derbyn pensiwn yn dal i orfod gweithio ac mae gostyngiadau i bensiynwyr wedi diflannu i raddau helaeth dan yr hinsawdd economaidd bresennol.
- Yr angen i gael categorïau blaenoriaeth ar wahân i bobl hŷn a gwledig ynysig (o unrhyw oedran) a strategaethau gweithredu ac effaith i gefnogi'r grwpiau hyn a chymunedau daearyddol.
- Mae potensial ar gyfer arian i effeithio'n negyddol ar ddau nod lles – Cymunedau Cydlynus a Chymru Lewyrchus. Efallai y bydd effeithiau negyddol wrth ariannu cwmnïau mawr o Gaerdydd i deithio gwaith o amgylch Cymru, ond sy'n cyflogi pobl o'r tu allan i'r cymunedau y maen nhw'n teithio iddynt. Ni fydd hyn yn gadael unrhyw gyfraniad parhaol at y gymuned ond bydd hefyd yn cystadlu gyda'r rhai o fewn y gymuned a allai gynnig gwasanaeth tebyg. Mae angen archwilio hyn yn llawnach a mwy manwl.

## Ein hymateb

Cyhoeddir ein Hasesiad terfynol o'r Effaith Gyfun ochr yn ochr â dogfennau terfynol eraill yr Adolygiad Buddsoddi.

# Sylwadau i gloi

Mae'r Cyngor wedi ystyried y sylwadau a dderbyniwyd ac wedi diwygio'r broses a'r dogfennau yn unol â'r ymatebion a nodir yn y papur hwn. Mae copïau cyfoes o ddogfennau'r Adolygiad Buddsoddi i'w gweld yma.

Bydd Adolygiad Buddsoddi 2023 ar agor i gais ar 9 Ionawr 2023.

Hanner dydd ar 31 Mawrth 2023 yw'r dyddiad cau.

Byddwn yn cyhoeddi bwletinau a diweddariadau rheolaidd am gynnydd yr Adolygiad Buddsoddi, felly cadwch lygad barcud ar ein gwefan am ragor o wybodaeth.

Dymuniadau gorau

**Cyngor Celfyddydau Cymru**

**Tachwedd 2022**